

Masgynhyrchu

Masgynhyrchu (a elwir hefyd yn cynhyrchu llif ailadroddus neu'n gynhyrchu symiau) yw pan fydd niferoedd mawr iawn o gynnyrch unfath yn cael eu gwneud yn gyson dros gyfnod o amser hir. Nid yw'r cynnyrch yn rhy gymhleth a gellir eu gwneud yn rhad (e.e. teits).

Y ffeithiau sylfaenol

- ❖ Cynhyrchu llinell syth – mae pob gweithredwr yn gwneud yr un dasg drosodd a throsodd cyn trosglwyddo'r gwaith ar hyd y rhes gynhyrchu.
- ❖ Mae'r peiriannau yn aml yn rhedeg 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.
- ❖ Gweithwyr di-grefft neu led-grefftus: mae'r gweithwyr yn arbenigo mewn **un** gweithrediad; maent yn cael eu talu yn ôl nifer y darnau y byddant yn eu pwytho. Gelwir hyn yn waith darnau. Mae angen lefel uchel o fuddsoddiad i brynu peiriannau, ond bydd cyfnodau cynhyrchu hir sy'n lleihau'r costau cyffredinol yn gwrthbwysu hyn.
- ❖ Mae angen nifer fawr o offer arbenigol, mae pob peiriant yn gwneud **swydd benodol**.
- ❖ Mae'n ddrud i newid steiliau ac ailosod peiriannau.
- ❖ Gellir prynu defnyddiau a chydannau mewn sypiau, sy'n lleihau costau ac yn gwneud y cynnyrch yn llawer rhatach i'r cwsmer.
- ❖ Gellir cynhyrchu symiau mawr iawn o gynnyrch o fewn amser byr. Mae hyn hefyd yn lleihau costau.
- ❖ Gweithgynhyrchu mewn gwledydd lle mae'r llafur yn rhatach.

Enghraifft: Jîns

Wrth i'r jîns symud ar hyd y rhes gydosod, mae pob peiriannydd yn gweithio ar gam penodol yn y broses gynhyrchu: megis pwytho sêm, gosod sip neu gysylltu'r band gwasg. Pan fydd y jîns wedi symud drwy'r holl gamau, byddant wedi'u cwblhau.

Mae'r ffilm ganlynol yn dangos y camau sydd eu hangen i weithgynhyrchu pâr o jîns.
Mae'n dechrau gyda'r broses o fasgynhyrchu'r cotwm.....

Manteision masgynhyrchu

- ❖ Mae swp-brynu'r defnyddiau a'r cydrannau yn lleihau costau, sy'n cael ei drosglwyddo i'r defnyddiwr.
- ❖ Gellir ail-greu steil cynllunwyr dillad yn hawdd, gan sicrhau bod 'ffasiynau' cynllunwyr ar gael ac yn fforddiadwy i'r farchnad dorfol.
- ❖ Gall peirianwyr ennill cyflog da – maent yn cael eu talu yn ôl nifer y darnau y byddant yn eu gwnïo.
- ❖ Cyflogaeth gyson i weithwyr oherwydd bod galw uchel am y cynnyrch.
- ❖ Mae'r elw i weithgynhyrchwyr yn gymharol uchel oherwydd bod y cynnyrch yn cael eu cynhyrchu'n rhad.

Anfanteision masgynhyrchu

- ❖ Os bydd un rhan o'r rhes gydosod yn methu, bydd y broses gynhyrchu gyfan yn dod i stop.
- ❖ Gall fod yn ailadroddus a diflas iawn i'r gweithwyr.
- ❖ Mae angen lle mewn warws i storio cydrannau a defnyddiau ar gyfer y broses gynhyrchu. Gall hyn gynyddu'r costau.
- ❖ Gall fod yn ddud i'r gweithgynhyrchwr addasu'r rhesi cynhyrchu.
- ❖ Ni ellir gwarantu ansawdd y cynnyrch bob amser!
- ❖ Mae miloedd o'r un cynnyrch ar gael yn y farchnad.

Cynhyrchu Mewn Union Bryd

Yn y system weithgynhyrchu hon mae stociau o ddefnyddiau a chydrannau'n cael eu cyflenwi'n rheolaidd i'r ffatri **dim ond cyn** y bydd eu hangen ar gyfer gweithgynhyrchu'r cynnyrch. Maent yn cael eu defnyddio ar unwaith.

Manteision Cynhyrchu Mewn Union Bryd

- ❖ Nid oes angen warysau mawr o reidrwydd i gadw stociau o ddefnyddiau ac yn y blaen cyn y broses weithgynhyrchu.
- ❖ Costau cynhyrchu is.
- ❖ Perfformiad cyflym, effeithlon o ansawdd uchel.

Anfanteision Cynhyrchu Mewn Union Bryd

- ❖ Os bydd oedi wrth gludo cyflenwadau, bydd y broses gynhyrchu'n dod i stop. Mae hyn yn ychwanegu at gostau'r gweithgynhyrchwr.

Cynnyrch tecstilau sydd wedi'u masgynhyrchu



Mae'r eitemau a ddangosir yma yn nodweddiadol o gynnyrch tecstilau sydd wedi'u masgynhyrchu. Er bod gwahanol liwiau'n cael eu cynhyrchu nid yw siâp sylfaenol y cynnyrch yn newid ac felly defnyddir yr un peiriannau ar gyfer eu cynhyrchu. Mae'r steiliau yn aros yn ddigynnewid am nifer o flynyddoedd ac weithiau cânt eu hystyried yn steiliau clasurol.



Mae nifer o domenni o ffabrigau'n cael eu gosod ar fwrdd torri yna, gan ddefnyddio peiriant torri cyfrifiadurol, mae darnau templed unigol yn cael eu torri allan. Mae peiriannau fel hyn yn gyffredin yn y diwydiant gweithgynhyrchu tecstilau yn arbennig wrth fasgynhyrchu.